Canllaw Treth y Cyngor & Threthi Annomestig



2026/27

RHONDDA CYNON TAF

Canllaw Treth y Cyngor a Threthi Annomestig 2026/27

Gwybodaeth esboniadol am Dreth y Cyngor a Threthi Annomestig a gwybodaeth ariannol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'r daflen yma'n ffurfio rhan o hysbysiad hawlio statudol ac ar gael mewn mathau eraill o ddiwyg.

Cynnwys

Gwybodaeth Gefndir	**3**
Sut caiff cyllideb y Cyngor ei hariannu	**4**
Cymharu gwariant net cyfartalog 2025/26 a 2026/27	**6**
Gwybodaeth Ariannol Arall	**7**
Prif Breseptau a Phreseptau Cynghorau Cymuned/Tref 2026/27	**8**
Treth y Cyngor – Gwybodaeth Gyffredinol	**9**
Treth y Cyngor – Gostyngiadau, Rhyddhad ac Eithriadau	**10**
Premiymau Treth y Cyngor	**11**
Sut i dalu, gweld manylion eich cyfrif a rhoi gwybod inni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau	**12**
Eich Bil Trethi Annomestig	**13**

1 Gwybodaeth Gefndir

Yn ôl y gyfraith, mae gofyn bod y Cyngor yn paratoi gwybodaeth ynglŷn â chynlluniau gwario a'ch bil Treth y Cyngor. Mae'ch bil Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 yn nodi'r swm bydd rhaid ichi'i dalu a'r swm bydd pob sefydliad sydd wedi'i restru yn ei dderbyn:

A) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf


B) Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

C) Eich Cyngor Cymuned/Tref (os yw'n berthnasol)

Mae incwm Treth y Cyngor yn gyfraniad tuag at wasanaethau'r Cyngor a'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu gan awdurdodau preseptio, megis Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (sydd ddim yn casglu Treth y Cyngor eu hunain).

Dim ond un ffordd o ariannu Llywodraeth Leol yw Treth y Cyngor. Mae ffynonellau eraill o incwm yn cynnwys Grantiau Llywodraeth Ganolog, er enghraifft, Grant Cynnal Refeniw a chyfraniadau o'r Gronfa Trethi Annomestig (trethi mae busnesau lleol yn eu talu). Dim ond 20.9% o gyllideb y Cyngor sy'n cael ei hariannu trwy Dreth y Cyngor.

2 Sut caiff cyllideb y Cyngor ei hariannu




	£miliwn
Grant Cynnal Refeniw	£473.182
Cyfraniadau Cronfa Trethi Annomestig	£83.234
Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn	£0.911
Grant Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol	£3.668
Swm mae'r sawl sy'n talu Treth y Cyngor yn ei gyfrannu	£148.640

Mae'r Fwrdeistref Sirol wedi cymeradwyo cyllideb net o £709.635 miliwn ar gyfer 2026/27.

Mae nifer o wasanaethau'n cael eu cynnal trwy hyn, gan gynnwys:

- Addysg (gan gynnwys meithrin, cynradd ac uwchradd ac ysgolion arbennig)
- Gwasanaethau i Blant
- Y Priffyrdd
- Gwasanaethau Cludiant
- Cynllunio ar gyfer Argyfyngau
- Safonau Masnach
- Gwasanaethau i Bobl Ifainc
- Gwasanaethau Tân
- Gwasanaethau Hamdden
- Gwasanaethau Gofal y Strydoedd
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

3 Cymharu gwariant net amcangyfrifedig 2025/26 a 2026/27



4 Gwybodaeth ariannol arall

Setliad Ariannol Llywodraeth Leol:
Dyma asesiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wario ar ei wasanaethau, ei Asesiad o Wariant Safonol yw £709.216 miliwn.

Buddsoddi Cyfalaf:
Rhaglen fuddsoddi cyfalaf gwerth £190.553 miliwn wedi'i chynllunio ar gyfer tair blynedd – 2026/27 hyd at 2028/29.

Arian wrth gefn:
Cronfeydd Refeniw - mae disgwyl i'r balansau fod tua £10 miliwn ar 31 Mawrth 2027.

Crynodeb o Gyllideb Refeniw	Cyllideb 2025/26 £ miliwn	Cyllideb 2026/27 £ miliwn
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (gan gynnwys ysgolion)	£249,591	£263,054
Gwasanaethau Cymdeithasol	£202,990	£218,328
Gwasanaethau Cymuned	£18,040	£19,085
Adnoddau Corfforaethol	£26,348	£26,987
Gwasanaethau'r Amgylchedd	£74,486	£79,984
Gwasanaethau Tai ac Adfywio	£5,769	£5,894
Adnoddau Dynol	£4,361	£4,472
Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd	£7,205	£7,456
Uwchadran y Prif Weithredwr	£469	£465
Gofynion Corfforaethol - Amrywiol	£12,716	£16,074
Gofynion Corfforaethol - Cyllid Cyfalaf	£21,519	£21,519
Gofynion Corfforaethol - Ardollau Gan Gyrff Eraill	£16,866	£17,385
Gofynion Corfforaethol - Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	£27,819	£28,932
Cyfanswm	**£668,179**	**£709,635**

5 Prif Breseptau a Phreseptau Cynghorau Cymuned/Tref 2026/27

Presept 2025/26 (£)	Treth y Cyngor Band D 2025/26 (£)	Corff Preseptio / Cyngor Cymuned	Presept 2026/27 (£)	Treth y Cyngor Band D 2026/27 (£)
£30,460,313.00	£378.67	Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru	£32,634,789.00	£405.14
£87,861.00	£84.93	Y Gilfach-goch	£111,941.00	£107.73
£95,057.08	£55.46	Hirwaun	£98,003.85	£57.58
£300,409.26	£83.92	Llanharan	£320,808.44	£85.43
£129,379.00	£80.00	Llanhari	£145,891.00	£90.00
£336,100.00	£62.00	Llantrisant	£354,694.00	£65.00
£383,734.00	£57.37	Llanilltud Faerdref	£396,074.00	£58.98
£291,520.00	£83.34	Pont-y-clun	£291,125.00	£83.12
£877,276.43	£80.86	Pontypridd	£911,794.09	£83.74
£17,000.00	£58.76	Rhigos	£17,000.00	£58.99
£40,938.00	£28.42	Ffynnon Taf	£43,151.00	£29.84
£347,511.00	£81.92	Tonyrefail	£370,000.00	£87.43
£80,000.00	£55.62	Ynys-y-bŵl / Coed y Cwm	£82,650.00	£57.15

6 Treth y Cyngor – Gwybodaeth Gyffredinol

Bob mis Mawrth, mae'r Cyngor yn anfon biliau Treth y Cyngor newydd i 112,000 o dai yn Rhondda Cynon Taf. Er mwyn helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gyda chi ynglŷn â'ch bil, a materion eraill, mae'r Cyngor wedi paratoi atebion i gwestiynau cyffredin. Ewch i: www.rctcbc.gov.uk/**ynglynathrethycyngor**

Hoffech chi'r wybodaeth ar ffurf copi caled? Mae copi caled ar gael ar gais (cofiwch 'nodi 'Canllaw Defnyddiol'): e-bost: **refeniw@rctcbc.gov.uk**

Mae swm Treth y Cyngor rydych chi'n atebol i'w dalu yn dibynnu ar fand prisio Treth y Cyngor eich cartref, a'r ardal rydych chi'n byw ynddi yn Rhondda Cynon Taf.

Caiff pob cartref ei ddosbarthu yn un o'r naw band yn unol â'i werth ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003.

Oes modd apelio yn erbyn band prisio fy eiddo?

Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gyfrifol am brisio eiddo domestig at ddibenion Treth y Cyngor. Efallai y bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddfa os ydych chi o'r farn bod problem gyda'ch band prisio.

Mae rhagor o wybodaeth am herio'ch band prisio a'r hyn sydd angen i chi ei wneud yn **gov.uk/challenge-council-tax-band**. Os byddwch chi'n herio'ch band prisio, rhaid i chi ddal ati i dalu'r gyfradd gyfredol nes bydd yr apêl wedi'i datrys.

Mae gan rai ardaloedd yn Rhondda Cynon Taf lefelau Treth y Cyngor gwahanol i weddill y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn oherwydd eu bod yn ardaloedd sydd â chyngor cymuned neu gyngor tref, sy'n codi presept (tâl) ar fil Treth y Cyngor. Mae'r rhain i'w gweld ar eich bil Treth y Cyngor.

Mae modd ichi weld rhestr o gostau Treth y Cyngor ar gyfer pob cymuned yn Rhondda Cynon Taf ar-lein. Ewch i: www.rctcbc.gov.uk/**faintywfynhrethycyngor**

7 Treth y Cyngor – Gostyngiadau, Rhyddhad ac Eithriadau

Gostyngiadau, Rhyddhad ac Eithriadau o ran Treth y Cyngor
Efallai y byddwch chi'n talu llai na'r swm rydych chi'n atebol i'w dalu oherwydd gostyngiadau neu fudd-dal rydych chi'n gymwys i'w cael. Os ydyn nhw'n berthnasol, byddan nhw i'w gweld ar eich bil. Mae modd gweld sut mae hawlio gostyngiadau yma: www.rctcbc.gov.uk/**trethycyngor**

Gostyngiad i Berson Sengl
Os taw chi yw'r unig oedolyn sy'n byw mewn eiddo, efallai bydd hawl gyda chi i ostyngiad o 25% yn eich bil Treth y Cyngor.

Eiddo gwag
Bydd unrhyw eiddo sy'n wag am rhwng chwe mis a deuddeg mis sydd ddim wedi'u heithrio am reswm arall, yn atebol i dalu Treth y Cyngor lawn (100%). Cyfeiriwch at adran 8 am wybodaeth ynghylch premiymau Treth y Cyngor ar gyfer eiddo sy'n wag am fwy na 12 mis.

Amhariad Gwybyddol Sylweddol
Os oes gyda chi amhariad gwybyddol sylweddol ac mae meddyg wedi cadarnhau hynny, a'ch bod chi hefyd yn hawlio budd-dal perthnasol, efallai bydd modd gostwng eich bil Treth y Cyngor.

Datganiad am Ostyngiadau
Os ydych chi'n derbyn unrhyw fath o ryddhad/gostyngiad neu eithriad, ond dydych chi ddim yn gymwys i gael hynny mwyach oherwydd bod eich amgylchiadau wedi newid, mae rhaid ichi, yn ôl y gyfraith, roi gwybod i'r Cyngor o fewn 21 diwrnod o'r newid hwnnw. Os nad ydych chi'n rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newidiadau perthnasol mewn perthynas â rhyddhad, gostyngiad neu eithriad rydych chi'n ei dderbyn, mae'n bosibl y cewch chi gosb ariannol o £50.00 neu hyd yn oed cael eich erlyn o dan Ddeddf Twyll 2006.

8 Premiymau Treth y Cyngor

Ym mis Ionawr 2023 cytunodd y Cyngor i gyflwyno premiwm ar gyfer eiddo sy'n cael eu dosbarthu fel rhai "gwag tymor hir" ac eiddo gwag ond wedi'u dodrefnu'n sylweddol, y cyfeirir atyn nhw weithiau fel "ail gartrefi". Daw hyn i rym yn achos eiddo gwag tymor hir ar 1 Ebrill 2023 ac ar gyfer eiddo gwag ond wedi'u dodrefnu'n sylweddol ar 1 Ebrill 2024.

Mae eiddo gwag tymor hir yn un sydd wedi bod yn wag ac heb ddodrefn ers o leiaf 12 mis. O 1 Ebrill 2025 bydd eiddo sydd wedi bod yn wag am rhwng 1 a 3 flynedd yn talu 100% o Dreth y Cyngor yn ychwanegol a bydd unrhyw eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na 3 flynedd yn talu 200% o Dreth y Cyngor ychwanegol.

Mae eiddo gwag ond wedi'u dodrefnu'n sylweddol yn eiddo sydd ddim yn brif breswylfa person ac sydd wedi'u dodrefnu. Bydd perchnogion yr eiddo yma'n talu premiwm o 100%.

Mae rhai eithriadau i'r rheolau yma, a cheir manylion amdanyn nhw ar dudalen we'r Cyngor.

www.rctcbc.gov.uk/**premiymautrethycyngor**

9 Sut i dalu, gweld manylion eich cyfrif a rhoi gwybod inni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau

Sut i dalu'ch Treth y Cyngor a'ch Trethi Busnes:
Sefydlu Debyd Uniongyrchol:
www.rctcbc.gov.uk/**debyduniongyrchol**

Ewch ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/**talu**

Ffonio'r llinell daliadau awtomatig bob awr o'r dydd: **01443 425000**

Talu'ch bil Treth y Cyngor mewn swyddfa bost neu siopau sy'n arddangos arwydd 'Payzone'.

Gwasanaeth Neges Destun
Os fydd y Cyngor ddim yn derbyn taliad gennych chi ar eich dyddiad talu misol, efallai y byddwn ni'n anfon neges destun atoch chi i'ch atgoffa bod angen i chi dalu. Bydd y neges destun yn cynnwys cwestiwn diogelwch a dolen ddiogel i wefan y Cyngor a fydd yn eich galluogi i dalu. Efallai byddwn ni hefyd yn eich annog i gysylltu â'r Cyngor i drafod eich taliadau treth y cyngor os ydych chi wedi mynd i ôl-ddyledion ac angen cymorth i fynd i'r afael â'r rhain.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
www.rctcbc.gov.uk/**gwasanaethnegesdestunycyngor**

Fy Nghyfrif
Mae modd ichi weld manylion eich cyfrif Treth y Cyngor, trethi busnes neu fudd-daliadau ar-lein. Ewch i: www.rctcbc.gov.uk/**egyfrif.** Dewiswch dderbyn eich biliau trwy e-bost, gweld datganiad o'ch cyfrif, rhestr o'ch taliadau a manylion eich gostyngiad ac eithriadau, yn ogystal â chael gwybod pryd mae rhandaliadau'n daladwy.

Hunanwasanaeth
Ffordd ddiffwdan, hawdd a diogel o roi gwybod inni os ydych chi'n symud tŷ, newid eich enw, hawlio gostyngiad person sengl neu sefydlu debyd uniongyrchol – ewch i www.rctcbc.gov.uk/**egyfrif**

10 Eich Bil Trethi Annomestig

Mae'r wybodaeth isod yn esbonio rhai o'r termau a fydd efallai yn cael eu defnyddio ar fil trethi annomestig ac yn yr wybodaeth ategol. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am gyfrifoldeb i dalu trethi annomestig oddi wrth yr awdurdodau bilio.

Trethi Annomestig

Mae'r trethi annomestig sy'n cael eu casglu gan awdurdodau bilio yn cael eu talu i mewn i gronfa ganolog Cymru a'u hailddosbarthu i Gynghorau Bwrdeistref Sirol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae'ch Cyngor a'ch Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn defnyddio eu cyfrannau o'r incwm yma, ynghyd ag incwm oddi wrth eu talwyr Treth y Cyngor, y grant cynnal refeniw sy'n cael ei ddarparu gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill, i dalu am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Mae rhagor o wybodaeth am y system trethi annomestig, gan gynnwys pa ryddhad sydd ar gael yma: **busnescymru.llyw.cymru**

Gwerth Ardrethol

Mae gwerth ardrethol eiddo annomestig yn cael ei osod yn y rhan fwyaf o achosion gan swyddog prisio annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'r asiantaeth yma'n Asiantaeth Weithredol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae'r Asiantaeth yn llunio ac yn cynnal rhestr lawn o werthoedd ardrethol pob eiddo annomestig yng Nghymru. Mae'r rhestr yma ar gael ar eu gwefan: **www.gov.uk/find-business-rates**. Caiff gwerth eiddo annomestig ei ailystyried bob 3 mlynedd fel arfer. O 1 Ebrill 2023 mae gwerth ardrethol eiddo yn cynrychioli ei werth rhent blynyddol ar y farchnad agored fel yr oedd ar 1 Ebrill 2021.

Yn achos eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, mae'r gwerth ardrethol yn ymwneud â'r rhan annomestig yn unig. Mae gwerth pob eiddo y mae trethi yn daladwy i'ch awdurdod arno yn cael ei ddangos yn y rhestr ardrethi leol, mae modd cael copi o hyn drwy gysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn **gov.uk/contact-voa**, neu e-bostiwch **refeniw@rctcbc.gov.uk**.

Adbrisio

Mae pob gwerth ardrethol yn cael ei ailasesu mewn adbrisiad cyffredinol i sicrhau bod y trethi sy'n cael eu talu gan unrhyw un trethdalwr yn adlewyrchu newidiadau dros amser yng ngwerth ei eiddo o'i gymharu ag eiddo arall. Mae hyn yn helpu i gynnal tegwch yn y system ardrethol drwy ddiweddaru prisiadau yn unol â newidiadau yn y farchnad. Daeth rhestr ardrethu newydd i rym ar 1 Ebrill 2026, ac roedd hi'n seiliedig ar werth yr eiddo ar 1 Ebrill 2024.

Yn y flwyddyn y daw adbrisiad i rym, caiff y lluosydd ei ail-gyfrif i ystyried newidiadau cyffredinol i gyfanswm y gwerth ardrethol ac i sicrhau nad yw'r adbrisio yn codi arian ychwanegol.

Newid yn y Gwerth Ardrethol

Caiff y trethdalwr (ac eraill sydd â buddiant yn yr eiddo) mewn amodau penodol gynnig newid yn y gwerth. Os na fydd y trethdalwr a'r swyddog prisio yn cytuno ar y gwerth cyn pen 3 mis o wneud y cynnig, bydd y mater yn cael ei gyfeirio gan y swyddog prisio fel apêl gan y cynigydd i Dribiwnlys Prisio Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am sut i gynnig newid mewn gwerth ardrethol ar gael gan swyddfeydd prisio.

Lluosydd Ardrethu Annomestig

Dyma'r swm yn y bunt sy'n cael ei luosi gan y gwerth ardrethol er mwyn cyfrifo'r bil blynyddol ar gyfer yr eiddo.

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi rhagnodi lluosyddion gwahaniaethol yn y rhestr ardrethu yn ôl y math o eiddo, yn unol â dosbarthiadau Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Dyma fanylion y lluosyddion:

- lluosydd manwerthu o 0.350, sy'n berthnasol i siopau manwerthu bach i ganolig eu maint gyda gwerth trethiannol sy'n is na £51,000;
- lluosydd safonol o 0.502, sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o eiddo eraill; a
- lluosydd uwch o 0.515, sy'n berthnasol i eiddo â gwerth trethiannol sy'n uwch na £100,000.

Dyma ragor o ganllawiau ar y lluosyddion gwahaniaethol: **Ardrethi Annomestig – Lluosyddion | Busnes Cymru**

Rhyddhad Ardrethi Trosiannol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2025 yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi trosiannol i roi cymorth i dalwyr ardrethi sydd wedi'u heffeithio gan ailbrisio ardrethi annomestig 2026.

Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi rheolau i'w defnyddio i gyfrifo'r gost ar gyfer hereditamentau cymwys gyda bil ardrethi annomestig mwy na £300 yn uwch, o ganlyniad i'r ailbrisio. Mae'r Rheoliadau'n gweithredu drwy leihau atebolrwydd talwyr ardrethi cymwys, gan ganiatáu i'r cynnydd yn y gost yn dilyn yr ailbrisio gael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o ddwy flynedd.

Bydd y Rheoliadau'n rhoi cymorth i dalwyr ardrethi cymwys sydd wedi gweld eu hardrethi annomestig yn cynyddu mwy na £300, yn dilyn llunio'r rhestr newydd o ardrethi annomestig ar 1 Ebrill 2026. Bydd gan dalwyr ardrethi cymwys hawl i ostyngiad graddol yn y cynnydd canlyniadol yn eu hatebolrwydd dros gyfnod o ddwy flynedd (gostyngiad o 67% yn 2026–27, 34% yn 2027–28).

Cynigion ac Apeliadau

Mae gwybodaeth ar gael gan y swyddfa brisio leol ynglŷn ag o dan ba amgylchiadau y mae hi'n bosibl cynnig newid yn y gwerth ardrethol a sut y bydd hi'n bosibl gwneud cynnig o'r fath. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am y trefniadau apelio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn darparu gwasanaeth apelio annibynnol am ddim sy'n delio ag apeliadau sy'n ymwneud â Threthi Annomestig a Threth y Cyngor. Mae modd cael hyd i'w manylion cyswllt yma **https://www.valuationtribunal.wales/cy/cartref.html**

Ardrethi eiddo gwag

Gall perchenogion eiddo annomestig gwag fod yn atebol i dalu trethi eiddo gwag ar 100% o'r swm arferol. Mae'r rhwymedigaeth yn dechrau pan fydd yr eiddo wedi bod yn wag am 3 mis, neu, yn achos eiddo diwydiannol penodol, pan fydd yr eiddo wedi bod yn wag am 6 mis. Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio o drethi eiddo gwag.

Cymorth elusennol a dewisol

Mae elusennau a chlybiau chwaraeon cymunedol amatur â hawl i gael gostyngiad ardrethi o 80% ar unrhyw eiddo annomestig

(a) yn achos elusennau, os yw'r eiddo yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol; neu

(b) yn achos clwb, os yw'r clwb wedi'i gofrestru gyda Chyllid a Thollau ei Fawrhydi.

Mae gan awdurdodau bilio ddisgresiwn i ildio'r cyfan neu ran o'r 20% sy'n weddill o'r bil ar eiddo o'r fath a chaiff hefyd roi gostyngiad ar eiddo sy'n cael ei feddiannu gan gyrff penodol sydd ddim wedi'u sefydlu nac yn gweithredu er elw.

Pe hoffech chi ragor o wybodaeth am y clybiau yma, cysylltwch â

Cyllid a Thollau EF, Sports Club Unit, St John's House, Merton Road, Liverpool, L75 (Y wefan yw **http://www.hmrc.gov.uk**).

Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR)

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

Daeth y rheoliadau statudol i rym ar 1 Ebrill 2018. Maen nhw'n cyfyngu ar nifer yr eiddo sy'n gymwys ar gyfer SBRR i ddau fusnes ym mhob ardal Cyngor, gan gyfyngu ar y rhyddhad a fydd yn cael ei roi i fusnesau mwy a chadwyni cenedlaethol o dan y cynllun yma.

O dan Erthygl 4 o'r rheoliadau, lle mae trethdalwr yn atebol i dalu ardrethi busnes ar gyfer mwy na dau adeilad sy'n cael eu dangos ar y rhestr Ardrethu Annomestig lleol, sy'n bodloni'r amodau gwerth ardrethol, rhaid i'r trethdalwr roi rhybudd o'r eiddo hynny i'r Cyngor mor fuan ag sy'n rhesymol i wneud hynny.

Cyfrifoldeb y trethdalwr yw rhoi gwybod i'r Cyngor os yw ar hyn o bryd â mwy na dau achos o SBRR mewn perthynas ag unrhyw eiddo y mae'n gyfrifol am dalu ardrethi busnes arno.

Mae manylion llawn y cynllun gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a'r rhyddhad ardrethi perthnasol ar gael yn: **www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/BusinessRates/BusinessRates.aspx**

Darparwyr Gofal Plant

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn darparu ar gyfer cynllun gostyngiadau i fusnesau, sy'n berthnasol i rai categorïau o fusnesau. Effaith y diwygiadau o dan yr Orchymyn yma yw eithrio pob eiddo sy'n bodloni'r "amodau gofal plant" rhag talu ardrethi annomestig o 1 Ebrill 2019. Mae'r Orchymyn wedi'i diwygio er mwyn cynyddu uchafswm y gwerth ardrethol ar gyfer eiddo sy'n bodloni'r amodau gofal plant i £100,000 (o £20,500). Mae hyn yn golygu bod pob eiddo sydd â gwerth ardrethol o £100,000 neu lai, sy'n bodloni'r amodau gofal plant, yn gymwys ar gyfer rhyddhad/gostyngiad o dan y cynllun yma.

Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod

Mae'r rhyddhad yma ar gyfer busnesau cymwys yn y sector lletygarwch bwyd a diod, megis tafarndai, bwytai, caffis, bariau a lleoliadau cerddoriaeth fyw. Nod y rhyddhad yw rhoi cymorth i'r sectorau yma i reoli pwysau costau parhaus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod i fusnesau cymwys ar gyfer 2026–27. Nod y rhyddhad yw rhoi cymorth i eiddo cymwys drwy gynnig gostyngiad o 15% ar filiau ardrethi annomestig ar gyfer eiddo o'r fath.

Bydd y cynllun yn berthnasol i bob busnes cymwys, fodd bynnag bydd y rhyddhad yn amodol ar gap ar y swm mae modd i fusnesau ledled Cymru ei hawlio. Cyfanswm y rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar draws yr holl eiddo mae un busnes yn ei feddiannu. Rhaid i bob busnes ledled Cymru wneud datganiad bod swm y rhyddhad y mae yn ei geisio ledled Cymru ddim yn fwy na'r cap yma wrth wneud cais i awdurdodau lleol unigol.

Rhaid gwneud ceisiadau i awdurdodau lleol erbyn 31 Mawrth 2027 er mwyn i dalwyr ardrethi fod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod yn 2026–27.

Eiddo a fydd yn elwa o'r rhyddhad yma fydd eiddo lletygarwch bwyd a diod, megis tafarndai, bwytai, caffis, bariau a lleoliadau cerddoriaeth fyw ledled Cymru. Mae modd gweld manylion meini prawf cymhwysedd ac eithriadau i'r rhyddhad isod.

Dylid pob busnes cymwys gael rhyddid ar ffurf gostyngiad i'w biliau ardrethi yn seiliedig ar feddiannaeth rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027. At ddibenion y rhyddhad yma, y bwriad yw y bydd eiddo cymwys yn golygu'r canlynol (yn amodol ar y meini prawf eraill yn y canllawiau yma).

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwerthu bwyd, diod neu fwyd a diod i'r cyhoedd, megis:

- Tafarndai
- Tai bwyta
- Caffis
- Bariau
- Lleoliadau cerddoriaeth fyw

Mae lleoliadau cerddoriaeth fyw yn eiddo sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer perfformiadau cerddoriaeth fyw er mwyn diddanu cynulleidfa. Does dim ond modd defnyddio eiddo cymwys ar gyfer gweithgareddau eraill sy'n ategol neu'n gysylltiedig â pherfformio cerddoriaeth fyw (megis gwerthu bwyd a diod i'r gynulleidfa) neu weithgareddau sydd ddim yn effeithio ar y prif ddefnydd (megis defnydd anaml o'r lleoliad yn orsaf bleidleisio neu ar gyfer achlysur yn y gymuned).

Mae llawer o leoliadau cerddoriaeth fyw wedi'u dosbarthu'n fathau eraill o eiddo sy'n gymwys ar gyfer y rhyddhad (megis tafarndai, bwytai a bariau). Dyw eiddo ddim yn lleoliad cerddoriaeth fyw at ddiben y rhyddhad yma os yw'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn glwb nos neu theatr.

Mae canllawiau llawn ar y rhyddhad i'w gweld yma
Trethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod 2026–27 | Busnes Cymru

Cymorth â Threthi Dewisol Lleol

Yn rhan o strategaeth cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27 a'i ymrwymiad i gefnogi busnesau yn RhCT, mae'r Cabinet wedi cytuno i ddarparu cyllid ychwanegol i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Mae'r cynllun yn darparu dyfarniad gwerth uchafswm £625 fesul safle busnes cymwys. I hawlio'r cymorth bydd angen i fusnesau wneud cais –

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/BusinessRates/BusinessRates.aspx.

Rhyddhad/Gostyngiad ar gyfer Gwelliannau

Bwriad y rhyddhad yw cefnogi trethdalwyr i fuddsoddi mewn gwelliannau i'w heiddo annomestig a fydd yn cefnogi eu busnes, trwy ddarparu rhyddhad rhag effaith cynnydd gwerth ardrethol canlyniadol ar eu rhwymedigaeth ardrethi annomestig am gyfnod o 12 mis. Caiff hynny ei roi drwy gyfrifo swm trethadwy ardrethi annomestig yr eiddo perthnasol fel pe bai'r gwerth ardrethol yn y rhestr ar gyfer y diwrnod o dan sylw yn werth ardrethol llai'r cynnydd yn y gwerth ardrethol sydd i'w briodoli i'r gwaith gwella cymwys. Bydd hyn yn sicrhau bod busnesau a threthdalwyr eraill yn gallu dechrau gwireddu manteision y gwelliannau maen nhw'n eu gwneud, cyn i'w bil ardrethi annomestig gynyddu.

Mae meini prawf ar gyfer y rhyddhad yn amodol ar fodloni dau amod. Yn gyntaf, rhaid i'r gwelliannau fodloni'r diffiniad o waith cymwys. Yn ail, mae'n rhaid bod yr eiddo wedi parhau i gael ei feddiannu gan yr un trethdalwr yn y cyfnod ers i'r gwaith cymwys ddechrau. Diffinnir yr amodau hyn yn y **Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwella) (Cymru) 2023** ac mae mwy o fanylion yng nghanllawiau LIC yn y ddolen isod.

https://busnescymru.llyw.cymru/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-gwelliannau

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026 yn gofyn i dalwyr ardrethi ar gyfer yr hereditament perthnasol ar restr o ardrethi annomestig lleol roi gwybod i'r awdurdod bilio pan fydd rhai newidiadau mewn amgylchiadau. Rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod bilio am y dyddiad y digwyddodd unrhyw un o'r newidiadau canlynol, cyn pen 60 diwrnod o'r dyddiad hwnnw:

a. daethoch chi'n dalwr ardrethi'r eiddo,

b. mae'r eiddo wedi'i feddiannu pan roedd yn wag o'r blaen, neu

c. mae'r eiddo wedi dod yn wag (heb ei feddiannu).

Gall methu â chydymffurfio â hyn arwain at ddirwy o £500. Gall darparu gwybodaeth ffug mewn manylyn perthnasol arwain at euogfarn ddiannod i orfod talu dirwy gwerth hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol.